# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Mawrth 2025

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## O bell - Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

### 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.45 - 13.50)

**5.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025**

(Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-25 - Papur 19 - Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 7 Mawrth 2025

### 6 Papurau i'w nodi

(13.50 - 13.55)

**6.7 Gohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni: Graffu gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26**

(Tudalennau 4 - 12)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-09-25 – Papur 20 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, 3 Mawrth 2025

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0133/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Rhif 2) 2025 ("Rheoliadau Rhif 2").

Mae Rheoliadau 2 yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Fe'u gwneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig fel awdurdod priodol o dan Erthyglau 15(1) a 18(1) o Reoliad (EU) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 20 Mehefin 2019 ar Lygryddion Organig Parhaus (ail-lunio) ("Rheoliadau POPs").

Mae Rheoliadau Rhif 2 yn gymwys mewn perthynas â Chymru, Lloegr a'r Alban ac yn unol ag Erthygl 18(5) maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Byddant yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 11 Mawrth 2025.

Mae Erthygl 15(1) yn darparu y caiff awdurdod priodol wneud rheoliadau ac mae Erthygl 2A(c) o Reoliadau POPs yn darparu mai'r awdurdod priodol mewn perthynas â Chymru yw naill ai Gweinidogion Cymru neu pan fo Gweinidogion Cymru yn cydsynio, yr Ysgrifennydd Gwladol. Felly, dim ond Gweinidogion Cymru neu’r Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y caiff wneud rheoliadau a wneir drwy ddibynnu ar Erthygl 15(1) sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru.

Ysgrifennodd y Farwnes Hayman o Ullock ataf ar 8 Ionawr 2025, yn gofyn am gydsyniad i Reoliadau 2025. Mae cais tebyg am gydsyniad wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024

Yn 2024 cydsyniodd Gweinidogion Cymru i Reoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024"). Diwygiodd Rheoliadau 2024 Atodiad 1 o Reoliadau POPs i, ymhlith pethau eraill, wahardd defnyddio Dechlorane Plus a gweithgynhyrchu a defnyddio UV-328, a'i roi ar y farchnad gan ddarparu eithriadau cyfyngedig iawn yn unig. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud (wedi llofnodi) Rheoliadau 2024. Byddant yn cael eu gwneud ar 11 Mawrth a byddant yn dod i rym 21 diwrnod yn ddiweddarach ac yn union cyn Rheoliadau Rhif 2. O ganlyniad, bydd teitl Rheoliadau 2024 yn cael ei ddiwygio i "Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2025".

Rheoliadau Rhif 2

Mae Rheoliadau 2025 yn diwygio'r tabl yn Rhan A o Atodiad I i Reoliadau POPs drwy ddarparu eithriadau cyfyngedig ar gyfer Dechlorane Plus ac UV-328.

Defnyddir Dechlorane Plus fel arafydd fflamiau a ychwangir mewn gwahanol gynhyrchion sy'n rhychwantu sawl sector. Mae Rheoliadau Rhif 2 yn darparu eithriadau cyfyngedig ar gyfer defnyddio Dechlorane Plus mewn amrywiol gymwysiadau: dyfeisiau a gosodiadau awyrofod, gofod, amddiffyn, delweddu meddygol a radiotherapi, tan 26 Chwefror 2030. Maent hefyd yn darparu ar gyfer ei ddefnyddio mewn rhannau newydd a gwaith trwsio yn yr uchod os cafodd ei weithgynhyrchu'n wreiddiol gyda Dechlorane Plus - tan 2044. Yn ogystal, caniateir defnyddio Dechlorane Plus ar gyfer amnewid rhan o ddyfeisiau meddygol a'u trwsio, dyfeisiau diagnostig in vitro lle cafodd ei ddefnyddio yn y ddyfais gwreiddiol o dan Reoliadau Rhif 2 tan ddiwedd oes gwasanaeth yr eitem.

Defnyddir UV-328 fel plastigau atal UV (yn atal plastigau rhag diraddio dros amser yng ngolau'r haul), unwaith eto'n rhychwantu sawl sector defnydd. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu eithriadau cyfyngedig ar gyfer cynhyrchu UV-328, a'i osod ar y farchnad a'i ddefnyddio mewn rhannau o gymwysiadau awyrofod ar y tir, cymwysiadau amddiffyn, rhannau ar gyfer cerbydau modur ar y tir, cymwysiadau araenu diwydiannol, gwahanyddion mecanyddol mewn tiwbiau casglu gwaed, ffilm seliwlos Triacetayl mewn hidlwyr polareiddio, a phapur ffotograffig tan 26 Chwefror 2030. Eithriadau ar gyfer rhannau newydd ac atgyweirio eitemau a weithgynhyrchwyd yn wreiddiol gyda UV-328 gan gynnwys eitemau i'w defnyddio at ddibenion meddygol, offerynnau ar gyfer dadansoddi, mesuriadau, rheoli, monitro. Profi cynhyrchu ac arolygiadau (tan ddim hwyrach na 2041), a rhannau newydd ar gyfer eitemau, ac ar gyfer eu hatgyweirio, mewn cymwysiadau awyrofod ac amddiffyn lle cafodd ei ddefnyddio’n wreiddiol yn y gwaith gweithgynhyrchu - tan 2044.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Mewn rhai amgylchiadau, lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny, mae manteision gweithio ar y cyd â Llywodraeth y DU.

Ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i sylwedd gwelliannau Llywodraeth y DU fod yn gymwys i Gymru, gan y bydd gweithredu'n amserol yn atal tarfu ar gynhyrchu a chyflenwi yn y sectorau awyrofod, amddiffyn, meddygol a modurol. Rwyf o'r farn nad deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru chwaith.

Rhagwelir y bydd Rheoliadau 2025 yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 11 Mawrth 2025. Disgwylir y bydd Rheoliadau 2025 yn dod i rym 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu gwneud.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Eitem 6.7

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0079/25

Mike Hedges AS/MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ar Graffu gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26. Mae ein hymateb ynghlwm â'r llythyr hwn.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru

# Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ym mis Chwefror 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei adroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Mae'r adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......................................................................................3

**Yr ymateb i'r chwe argymhelliad**...............................................................4

Argymhelliad 1............................................................................................ 4

Argymhelliad 2............................................................................................ 5

Argymhelliad 3............................................................................................ 6

Argymhelliad 4 ........................................................................................... 6

Argymhelliad 5............................................................................................ 7

Argymhelliad 6 ........................................................................................... 7

# Cyflwyniad

Diolchwn i aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eu hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Rydym wedi nodi ein hymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

# Yr ymateb i'r chwe argymhelliad

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith y mae wedi'i wneud hyd yma i ymchwilio i ffyrdd y gall wella lefel y wybodaeth y mae'n ei darparu am wariant ynghylch gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, a pha waith y mae'n bwriadu ei wneud yn y dyfodol yn y maes hwn.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi ystyried gwahanol ddulliau o gyfleu gwybodaeth ystyrlon, ddefnyddiol am wariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, a fyddai'n hwyluso gwaith craffu'r Pwyllgor yn y maes hwn.

"Protocol Proses y Gyllideb" ("y Protocol") rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru, y cytunwyd arno gan y Senedd ar 21 Mehefin 2017, yw'r ddogfen sy'n amlinellu'r ddealltwriaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru ynghylch materion cyllidebol ar hyn o bryd. Yn unol â'r Protocol, mae'r Gyllideb Ddrafft yn amlinellu cynigion y gyllideb ar gyfer pob portffolio ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL).

Mae gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn torri ar draws sawl portffolio a dyrennir cyllid i'r gweithgarwch hwn o nifer o BEL ar draws y Prif Grwpiau Gwariant (MEG). Mewn llawer o achosion, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gostau staff na chaiff eu hamser ei rannu'n union rhwng gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder a gweithgarwch arall, neu ragolygon gwariant na ellir eu dadgyfuno yn y modd hwn. Felly, nid yw lefel y manylder ynghylch dyraniadau'r gyllideb ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn mynd y tu hwnt i lefel BEL. Mae'r dull hwn yn gyson â'r Protocol, a'r strwythur ac mae'n gyson, felly, â chyllidebau'r blynyddoedd blaenorol.

O ran gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, roedd gohebiaeth ar gyllidebau blaenorol yn cynnwys BEL a oedd ond yn cyflawni'n rhannol weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder. Cyfran ymylol o wariant y BEL yn gyffredinol oedd rhai o'r cyfraniadau o'r BEL hyn at wariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder, fel yn achos BEL Dyraniad Craidd y GIG o £8.6bn. Ar gyfer y BEL eraill a gyflwynwyd, efallai fod y gweithgarwch polisi wedi cyfrannu'n anuniongyrchol at nodau polisi cyfiawnder Llywodraeth Cymru ond nid oeddent yn cynnwys gwariant uniongyrchol ar gyfiawnder, fel y gyllideb iechyd meddwl o £78m. Er bod hyn yn taflu mwy o oleuni ar natur y maes polisi cyfiawnder fel un sy'n cwmpasu'r llywodraeth gyfan, nid oedd yn rhoi eglurder ynghylch lefel y gwariant a neilltuwyd i weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn benodol.

Ceisiwyd rhoi rhagor o eglurder ynghylch y gwariant drwy ddarparu naratif i gyd-fynd â'r llinellau gwariant, er mwyn nodi pa weithgarwch o dan y BEL honno sy'n cyfrannu at gyfiawnder. Fodd bynnag, i raddau cyfyngedig yn unig y gellid egluro cwantwm cyffredinol y gwariant ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder o fewn BEL benodol drwy naratif. Yn ogystal â hyn, canfuom fod creu'r dogfennau hyn yn tynnu adnodd oddi ar gyflenwi, heb ddangos bod gwerth amlwg mewn gwneud hynny.

Yn ein llythyr blaenorol, nodwyd hefyd fod dyblygu yn digwydd mewn sawl achos wrth ddarparu gwybodaeth i'r pwyllgorau pwnc perthnasol drwy eu gwaith craffu ar y gyllideb. Rydym, wrth reswm, yn cydnabod y gallai fod gan wahanol bwyllgorau ddiddordeb yn yr un gwariant, wedi'i weld o wahanol safbwyntiau, a mater i'r pwyllgorau unigol yw penderfynu sut y byddant yn ymgymryd â'u gwaith craffu. Nodi pa mor aneffeithlon ydyw i Lywodraeth Cymru ddarparu, fel mater o drefn, yr un wybodaeth ar wahanol ffurfiau i wahanol bwyllgorau oedd ein hunig ddiben wrth grybwyll hyn.

Mae'r Protocol yn cydnabod bod proses y gyllideb yn esblygu ac y bydd y ffordd y caiff cynigion y gyllideb eu cyflwyno yn newid. Yn y tymor hwy, rydym yn disgwyl y bydd datganoli cyfiawnder ymhellach yn golygu y bydd yn bosibl rhoi mwy o eglurder ynghylch dyraniadau'r gyllideb ar gyfer gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder. Yn wir, mae sicrhau mwy o atebolrwydd yng Nghymru fel hyn yn un o'r dadleuon craidd dros ddatganoli ymhellach.

Goblygiadau Ariannol – Dim

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am ba ffrydiau gwaith y bydd yr adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder a'r BEL Diwygio Cyfansoddiadol yn eu cefnogi, a gwybodaeth ynghylch pa gostau cysylltiedig posibl eraill a ragwelir yn 2025-26.

Ymateb: Derbyn

Bydd yr adnoddau ychwanegol a ddarperir i'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder a'r BEL Diwygio Cyfansoddiadol yn cael eu defnyddio i ariannu gwaith ar y canlynol:

- Datblygu polisi gweithredol ar ddatganoli cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chefnogi trafodaethau â Llywodraeth y DU
- Datblygu cynigion ar gyfer datganoli'r gwasanaeth prawf, gan adeiladu ar ddatganoli rhanbarthol yn Lloegr
- Diwygio'r tribiwnlysoedd, gan gynnwys datblygu deddfwriaeth a'r paratoadau ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth honno
- Cynnal rhaglen o ymchwil i ganlyniadau cyfiawnder yng Nghymru ac i gefnogi'r paratoadau ar gyfer datganoli, y dyfarnwyd y contract ar ei chyfer ar 12 Chwefror 2025
- Cefnogi gwaith i gyflawni argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, gan gynnwys y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth, dan gadeiryddiaeth Dr Anwen Elias.

Goblygiadau ariannol – Mae'r gyllideb ychwanegol a ddyrannwyd i'r ffrydiau gwaith hyn wedi'i nodi yn ein gohebiaeth flaenorol. Nid ydym yn rhagweld ar hyn o bryd yr ysgwyddir costau pellach yn 2025/26.

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw drosglwyddiad o swyddogaethau gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chyfiawnder, ac unrhyw gronfeydd ychwanegol cysylltiedig neu drosglwyddiad cyllid sydd eu hangen i gefnogi'r swyddogaethau hynny.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am drosglwyddo unrhyw swyddogaethau o Lywodraeth y DU mewn perthynas â chyfiawnder. Os bydd unrhyw gyllid ychwanegol neu drosglwyddiadau cyllid cysylltiedig ar gyfer y swyddogaethau hyn, byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor am y rheini hefyd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi adroddiad cynnydd arall ar ei rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru cyn diwedd y Chweched Senedd.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd rhoi diweddariadau i'r Senedd am ei gweithgarwch wrth fynd ar drywydd gwelliannau i'r system gyfiawnder, gan gynnwys datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf. Fodd bynnag, ar sail ein profiad o lefel yr ymgysylltu â'r adroddiad cynnydd a gyhoeddwyd yn flaenorol, nid cyhoeddi adroddiad cynnydd pellach cyn diwedd tymor y Senedd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni hyn o reidrwydd yn ein barn ni.

Rydym yn hapus i ymrwymo i ddarparu diweddariadau drwy Ddatganiadau Ysgrifenedig neu Lafar ar bwyntiau allweddol, er enghraifft i gyd-fynd â chwblhau cerrig milltir ar hyd y rhaglen waith neu gyhoeddi adroddiadau arwyddocaol a gynhaliwyd gan gyflenwyr sydd o dan gontract i ymgymryd â gwaith yn y maes hwn. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn modd amserol, fel bod modd datblygu dealltwriaeth ac ymgysylltu â'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn fwy uniongyrchol.

Goblygiadau Ariannol – Dim

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru o fewn amserlen a fydd yn galluogi iddi gwblhau ei thaith ddeddfwriaethol cyn diwedd y Chweched Senedd.

Ymateb: Gwrthod

Rydym yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor ar gyfer diwygio'r gwasanaeth tribiwnlysoedd datganoledig, a chydnabyddiaeth y Pwyllgor o bwysigrwydd diwygio o'r fath. Mae ein bwriad i foderneiddio'r system tribiwnlysoedd yng Nghymru wedi'i amlinellu yn Sicrhau Cyfiawnder i Gymru ac mae hon yn rhaglen waith yr ydym yn parhau i fod yn ymroddedig iddi.

Fel y nodwyd gennym yn ein gohebiaeth dyddiedig 8 Ionawr, rydym yn parhau i ymgymryd â gwaith i ddatblygu Bil. Bydd y Prif Weinidog yn cyhoeddi'r Biliau sydd i'w cyflwyno yn ystod blwyddyn olaf tymor y Senedd hon yn y datganiad blynyddol ar y rhaglen ddeddfwriaethol.

Goblygiadau Ariannol – Dim ar hyn o bryd. Bydd goblygiadau ariannol Bil i ddiwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig yn cyd-fynd ag unrhyw Fil o'r fath fel y'i cyflwynir.

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw wedi gallu darparu manylion am eitemau unigol o wariant sydd wedi'i gynllunio i gefnogi ei rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, o ystyried ei bod wedi gallu gwneud hynny mewn blynyddoedd blaenorol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru yn ymdrech ar draws y Llywodraeth gyfan, wedi'i chefnogi gan dîm bach o staff sy'n gweithio yn y Swyddfa Codau Deddfwriaethol. Mae gwaith y Swyddfa Codau Deddfwriaethol hefyd yn cynnwys sicrhau bod is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan, yn cael ei gwneud, ei chofrestru a'i chyhoeddi yn gywir a bod deddfwriaeth ddwyieithog ar legislation.gov.uk yn cael ei diweddaru wedi iddi gael ei diwygio.

Ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gyllideb ddrafft 2024-25, darparwyd codau llinellau gwariant rhai o'r adnoddau staffio sy'n gysylltiedig â'r Biliau Cynllunio a'r Bil a elwir yn awr yn Fil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru), ynghyd â mân elfen o un agwedd ar gostau TG (a llinell wariant). Fel yr esboniwyd bryd hynny ac wedi hynny, fodd bynnag, nid oedd hyn yn cynnwys yr ystod lawn o wariant sy'n gysylltiedig â'r holl brosiectau yn y rhaglen, nac yn wir waith ehangach y Llywodraeth i gefnogi hygyrchedd cyfraith Cymru.

At hynny, roedd *Dyfodol cyfraith Cymru: adroddiad blynyddol* 2022-23 yn cynnwys adolygiad o weithredu Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, a oedd yn ymdrin â materion adnoddau, ymhlith pethau eraill. Roedd hynny yn cynnwys manylion y trefniadau staffio a roddwyd ar waith i gefnogi'r rhaglen ac roedd yn egluro'r anawsterau sy'n gysylltiedig â mesur yr ystod lawn o gostau sydd eu hangen i weithredu'r prosiectau unigol – yn enwedig yn achos datblygu deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

Oherwydd y cyfyngiadau hyn, nid ydym mewn sefyllfa i ymhelaethu ar yr eglurhad a roddwyd yn flaenorol gan ystyried bod costau ein gwaith o gyflawni *Dyfodol cyfraith Cymru* yn cael eu talu gan ystod eang o bortffolios fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach yn y sefydliad.

Goblygiadau ariannol - Dim